Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Ffawd yn y fflamau

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **20 munud neu fwy** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar yr effaith emosiynol sy'n cael ei deimlo gan aelodau cymuned yn ystod ac ar ôl profi achos o dân gwyllt.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella llesiant Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Iechyd a lles | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |
| | | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Bydd cwblhau'r gweithgaredd hwn yn cynnig cyfleoedd i gyflawni meysydd canlynol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Dinasyddiaeth | Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu | Data a meddwl cyfrifiadurol |
|---|---|---|---|
| • Hunaniaeth, delwedd ac enw da. | • Cyfathrebu. | • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol. | • Llythrennedd gwybodaeth a data. |
| | • Cydweithredu. | • Creu cynnwys digidol. | |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Nodi amrywiaeth o emosiynau sy’n cael eu teimlo gan unigolion y mae tanau gwyllt wedi effeithio arnyn nhw.
- Mynegi sut y gallan nhw ac eraill reoli emosiynau yn dilyn effeithiau tymor byr, canolig a hirdymor tanau gwyllt lleol.
- Gweithio gydag eraill i ystyried ac egluro gwahanol safbwyntiau unigol a chymunedol pe bai tân gwyllt yn digwydd.

## Adnoddau ac offer

- Cardiau adnoddau – Ffawd yn y fflamau
- Deunyddiau ymchwil ar-lein (dewisol)
- Camera fideo (dewisol)

## Gwybodaeth gefndir

Mae tanau gwyllt yn broblem barhaus, eang, costus ac yn broblem allai fod yn beryglus, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol cymharol yng Nghymru sy’n fwy tebygol o weld tanau gwyllt.

Fel arfer mae tymor brig tanau gwyllt yn digwydd rhwng mis Mawrth a mis Mai bob blwyddyn pan fydd yr amodau’n gynnes ac yn sych, gyda dros 60% o danau gwyllt yn digwydd rhwng 4yp a chanol nos.

## Beth i’w wneud

- Gofynnwch i’ch dysgwyr ydyn nhw erioed wedi cael profiad o neu weld tân gwyllt (yn hytrach na thân rheoledig fel coelcerth gardd). Pa arwyddion ffisegol o dân gwyllt fydden nhw’n debygol o’u gweld, clywed neu eu harogli, pe baen nhw’n agos at dân sy’n cychwyn neu dân sy’n llosgi’n wenfflam? Mwg, fflamau, bywyd gwyllt yn ffoi, sŵn clecian neu ffrwydrad?
- Trafodwch ac archwiliwch sut deimlad oedd hi/sut y byddai’n teimlo i edrych ar dân gwyllt fyddai’n llosgi’n agos at ble maen nhw a’u teuluoedd yn byw. Pa emosiwn fyddai’r cryfaf a pham? Beth allai effeithio ar ddyfnder neu’r math o deimladau y gallan nhw eu profi? Er enghraifft, pe bai’n rhaid iddyn nhw adael eu cartref, neu pe bydden nhw’n ansicr ynghylch lleoliad anifail anwes? Pa mor fuan ar ôl achos o dân gwyllt fydden nhw’n disgwyl profi effaith emosiynol? Sut gallan nhw reoli eu hemosiynau yn y tymor byr a’r tymor hir? Efallai trwy ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar, hunanofal neu siarad a rhannu eu teimladau gydag eraill?
- Gofynnwch i’ch dysgwyr ystyried cyfansoddiad eu cymuned leol. Er enghraifft:
    - Beth yw’r ystod oedran?
    - Oes unrhyw grwpiau o bobl a allai fod â phroblemau cyfathrebu? Er enghraifft, rhywun nad yw’n siarad yr iaith leol.
    - Oes pobl â phroblemau iechyd yn y gymuned?
    - Oes yno berchnogion anifeiliaid/anifeiliaid anwes?
    - Oes unrhyw grwpiau o bobl yn y gymuned leol y maen nhw’n eu hystyried yn arbennig o agored i niwed, e.e. preswylwyr cartref gofal?
- Gallai eich dysgwyr ymchwilio i’r boblogaeth leol er mwyn creu darlun dyfnach drwy ddefnyddio offer ar-lein fel **MapDataCymru** a **Stats Cymru.**
- Trafodwch yr heriau y gall gwahanol aelodau o’r gymuned eu hwynebu pe bai tân gwyllt yn digwydd yn lleol. Sut fydden nhw’n teimlo am ddigwyddiad o’r fath? Pa fath o effeithiau tymor byr, canolig a thymor hir y gallai hyn eu cael ar eu bywydau? A oes unrhyw un o’r effeithiau hyn yn wahanol i’r rhai y gallai eich dysgwyr deimlo’n bersonol?
- Eglurwch fod tanau gwyllt yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd. Rhannwch eich dysgwyr yn grwpiau bychain a rhowch un o’r **Cardiau adnoddau – Ffawd yn y fflamau** i bob grŵp.
- Gofynnwch i’ch dysgwyr osod eu hunain yn safle’r person a ddangosir, gan drafod y pwyntiau sydd ar y cerdyn. Anogwch nhw i gofnodi geiriau penodol sy’n cynrychioli orau y teimladau sy’n cael eu profi gan y rhai y mae tanau gwyllt yn effeithio arnyn nhw.

- Unwaith y byddwch yn barod gofynnwch i bob grŵp roi adborth drwy:
  - Ddarllen y senario, yna esbonio'r teimladau a'r anawsterau penodol y gall y person ar eu cerdyn ddod ar eu traws.

    NEU
  - Gofyn i bob grŵp greu adroddiad newyddion byr ar eu senario. Mae angen i bob grŵp enwebu un aelod o'r grŵp i fod yn ohebydd ynghyd ag un neu ddau berson arall i fod yn gymeriad yn eu senario. Gofynnwch i bob grŵp drafod y cwestiynau allweddol er mwyn i'r gohebydd eu defnyddio i ddarganfod sut mae'r cymeriad yn teimlo a pha effeithiau mae e/hi yn eu profi. Yna trafodwch yr ymatebion posib. Yna gellir perfformio hwn i'r dosbarth neu ei ffilmio fel cyfweliad byr. Unwaith y bydd y dasg wedi'i chwblhau, gofynnwch i'ch grŵp asesu perfformiad ei gilydd fel cymheiriaid.
- I atgyfnerthu'r dysgu, gofynnwch i'ch grŵp ymchwilio i unrhyw adroddiadau newyddion am danau gwyllt lleol neu gyfagos sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Beth oedd yr effeithiau ar y bobl leol a'r bywyd gwyllt?

## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Dychmygwch - Sut fyddai bod yn agos at dân gwyllt yn gwneud i chi deimlo?
- Rhowch eich hun yn eu hesgidiau nhw. Sut ydych chi'n meddwl y byddai pobl eraill yn teimlo yn wyneb perygl?
- Beth allai unigolion neu gymuned ei wneud er mwyn teimlo'n fwy diogel rhag tanau gwyllt?
- Pa effeithiau fyddai tân gwyllt yn eu cael ar eich cymuned?
- Pa mor hir y byddai unigolion neu gymuned yn ei gymryd i ddod dros effeithiau tân gwyllt?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Trafodwch un neu ddau o'r cardiau adnoddau fel grŵp cyfan gan gael pawb i fwydo syniadau.
- Dewiswch un o'r cardiau adnoddau a gofynnwch sut y gallan nhw deimlo a beth ellid ei wneud i helpu'r person hwnnw.

### Mwy o her

- Trafodwch sut y gallech helpu pobl wahanol, sy'n fwy agored i niwed yn y gymuned.
- Chwiliwch am ystadegau poblogaeth y gymuned.
- Cynlluniwch gynllun dianc personol neu gymunedol rhag tân gwyllt.

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

Beth am roi cynnig ar ein:

- Cynllun gweithgaredd – Cynllun cilio rhag tanau gwyllt
- Cynllun gweithgaredd – ABC Tanau gwyllt

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government